Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

03442 640 670
Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Y Farwnes Falkner o Margravine
Cadeirydd, Bwrdd y Comisiynwyr
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Drwy e-bost: correspondence@equalityhumanrights.com

29 Medi 2021

Annwyl Farwnes Falkner,

Ymgynghoriad ar gynllun strategol EHRC ar gyfer 2022–25

Rwyf yn croesawu'r cyfle i gynnig sylwadau ar eich cynllun strategol drafft ar gyfer 2022–25. Mae pandemig Covid-19 wedi amlygu llawer o'r anghydraddoldebau a'r anghyfiawnderau sy'n bodoli yn ein cymdeithas ac mae hyn yn ddi-os wedi cael effaith anghymesur ar bobl hŷn – yn enwedig y rhai sy'n byw mewn cartrefi gofal.

Rwyf yn cydnabod bod cartrefi gofal ledled y DU wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd iawn i warchod eu preswylwyr. Rydym wedi gweld llawer o gartrefi gofal yn cyfyngu'n ddifrifol ar fynediad preswylwyr at y gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â hwy ac at eu hanwyliaid yn ystod y pandemig. Er bod yr angen i liniaru lledaeniad yr haint yn bwysig, rhaid sicrhau nad yw'r cyfyngiadau ar ymweld yn parhau am gyfnod amhenodol. Rhaid pwyso a mesurau peryglon COVID-19 a'r mesurau i atal ei ledaeniad yn erbyn y difrod parhaol a wneir pan fydd teuluoedd yn cael eu gwahanu, yn enwedig yn achos y bobl hŷn hynny sy'n byw â dementia.

Rwyf yn falch bod y cynllun strategol drafft yn cydnabod y ffordd mae pobl hŷn ac anabl sy'n byw mewn cartrefi gofal wedi cael eu trin drwy gydol pandemig a'i fod yn codi pryderon difrifol ynghylch sut mae ein cymdeithas yn eu trin ac yn eu gwerthfawrogi. Rwyf yn nodi ac yn croesawu nod y cynllun i wneud yn siŵr bod ein systemau a'n gwasanaethau gofal cymdeithasol yn rhydd rhag gwahaniaethu a'u bod yn diogelu hawliau defnyddwyr gofal cymdeithasol ac y bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddefnyddio eich pwerau gorfodi i herio achosion sy'n mynd yn groes i hawliau pobl sy'n derbyn gofal cymdeithasol.

Mae perygl y gall polisïau sy'n cyfyngu'n ddifrifol ar drefniadau ymweld mewn cartrefi gofal barhau yn y tymor hwy. Er bod y mater hwn wedi cael llawer o sylw yn y cyfryngau, nid yw defnydd o'r fframwaith cyfreithiol hawliau dynol fel datrysiad posibl i'r mater wedi cael llawer o sylw. Gwelaf fod y cynllun strategol drafft ar gyfer 2022-

25 yn cydnabod “bod angen cymryd camau gorfodi cyflym a chryf ar adegau i atal achosion unigol a systemig o dorri'r gyfraith, ac i anfon neges glir neu i newid arferion gweithio mewn sector penodol”. Rwyf yn croesawu’r ymrwymiad hwn. Fel y corff sy'n gyfrifol am hybu a chynnal cyfreithiau a safonau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, rwyf yn pwyso arnoch i ddefnyddio grym llawn eich pwerau cyfreithiol i amddiffyn pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal rhag y driniaeth annheg ac anghyfartal hon drwy herio unrhyw achosion posibl o dorri'r gyfraith.

Mae'r nod o sicrhau bod Prydain yn ailadeiladu ar ôl y pandemig mewn ffordd sy'n rhoi blaenoriaeth i gydraddoldeb a hawliau dynol yn rhywbeth i’w groesawu. I wireddu hyn, rhaid inni ddeall yn well yr achosion posibl o dorri hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn ystod y pandemig os ydym am sicrhau na fydd rhagor o achosion yn y dyfodol.

Ym mis Gorffennaf eleni, ysgrifennais atoch fel rhan o grŵp o sefydliadau ac unigolion blaenllaw ledled y DU sy'n gweithio i gefnogi pobl hŷn ac i ddiogelu eu hawliau i ofyn i chi graffu ar y penderfyniadau a'r camau a gymerwyd yn ystod y pandemig gan lywodraethau ledled y DU i ystyried a oeddent yn rhoi sylw priodol i’r effeithiau ar hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal ac sydd wedi profi gwahaniaethu. Mae'r penderfyniadau hyn yn cynnwys:

- Rhyddhau cleifion o ysbytai i gartrefi gofal ar ôl prawf Covid-19 positif neu heb gael prawf o gwbl
- Cyfyngu ar allu ffrindiau a pherthnasau i ymweld â chartrefi gofal ac ystyried a oedd hyn yn amharu ar hawl preswylwyr i barchu eu bywydau preifat a theuluol (Erthygl 8)
- Defnydd anghywir posibl o Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a chyfyngu ar hawl preswylwyr i ryddid a diogelwch (Erthygl 5)
- Gweithredu cyffredinol gorchmynion 'Peidio ag Ymdrechu CPR' (Erthygl 2)
- Mynediad preswylwyr at driniaethau a gwasanaethau iechyd eraill
- A oedd gwahaniaethau yn y cyfyngiadau a osodwyd ar breswylwyr cartrefi gofal o'u cymharu â gweddill y boblogaeth ynddo'i hun yn gwahaniaethu yn eu herbyn.

Dywed cynllun strategol drafft 2022-25 y byddwch yn defnyddio'ch pwerau i "weithio mewn partneriaeth â sefydliadau a rheoleiddwyr eraill sydd ag arbenigedd mewn sector penodol, i'n helpu i ddeall rhwystrau ac i ddatblygu datrysiadau sy'n hybu ac yn annog parch at gydraddoldeb a hawliau dynol". Rwyf yn croesawu hyn ac yn eich annog i gymryd camau i ganfod a oes achosion o dorri hawliau dynol neu Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wedi digwydd er mwyn sicrhau na fydd achosion o’r fath yn digwydd eto. Byddwn yn hapus i weithio â chi i ymgymryd â'r gwaith hwn.

Rwyf yn credu’n gryf y byddai craffu ar achosion posibl o dorri hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn cydymffurfio â’r meini prawf a nodir yn y cynllun strategol drafft ar gyfer 2022-25 ar gyfer blaenoriaethu eich gwaith. Mae'r problemau sy’n wynebu pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn gyffredin yn y sector cartrefi gofal

ledled y DU ac mae difrifoldeb yr effaith ar bobl hŷn lle gall fod achosion posibl o dorri amodau wedi digwydd yn ddifrifol. Mae hyn yn berthnasol iawn i'ch pwerau fel y corff sy'n gyfrifol am gynnal cyfraith hawliau dynol a chydraddoldeb ac i'ch amcanion o fewn y cynllun strategol drafft hwn ar gyfer 2022-25. Er bod llawer o sefydliadau wedi mynegi pryderon difrifol ynghylch y posibilrwydd o fynd yn groes i hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn ystod y pandemig, nid oes gan unrhyw sefydliad arall y pwerau cyfreithiol i wneud gwaith craffu o'r fath yn enwedig yn achos hawliau dynol a chydraddoldeb.

Rwyf yn cefnogi nod y cynllun strategol drafft ar gyfer 2022-25 i gynnal fframwaith effeithiol i ddiogelu cydraddoldeb a hawliau dynol a'ch ymrwymiad i herio achosion amlwg, difrifol a systemig o dorri'r gyfraith. Fel y nodir yn y cynllun drafft, bydd cyflwyno sylfaen dystiolaeth gref a dibynadwy ar y materion cydraddoldeb a hawliau dynol mwyaf difrifol yn helpu eraill i gyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol.

Yn gywir

Heléna Herklots CBE

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru